

Welsh



HAWLIAU GWEITHWYR

Gwarchod gweithwyr trwy drwyddedu



Gangmasters
Licensing Authority

ff: +44 (0)845 602 5020

www.gla.defra.gov.uk

Sut gallwn ni eich helpu chi

Mae'r GLA yn sefydliad a sefydlwyd er mwyn eich diogelu chi rhag cael eich ecsbloetio.

Mae ein cynllun trwyddedu'n rheoleiddio busnesau sy'n darparu gweithwyr i'r gadwyn cyflenwi cynnyrch ffres. Mae'r cynllun yn sicrhau fod busnesau sy'n cyflenwi gweithwyr (darparwyr llafur, gangfeistri neu asiantaethau) a busnesau sydd angen gweithwyr (defnyddwyr llafur, ffermwyr, tai pecynnu) yn bodloni'r safonau cyflogaeth sy'n ofynnol dan y gyfraith.

Pa sectorau sy'n cael eu cwmpasu gan y cynllun hwn?

Mae ystod eang o sectorau yn dod o fewn y cynllun trwyddedu: amaethyddiaeth, garddwriaeth, coedwigaeth, prosesu pysgod, casglu pysgod cregyn, ffermio llaeth a phecyntu neu brosesu cynhyrchion bwyd a diod.

Felly, os yw eich darparwr llafur yn cyflenwi gweithwyr i unrhyw un o'r sectorau hyn, bydd angen trwydded gangfeistr arnynt.

Eich hawliau cyflogaeth

Gwarchodir eich hawliau fel gweithiwr dan gyfraith y DU. Mae rhai hawliau'n effeithiol ar unwaith, mae rhai'n dibynnu ar ba mor hir rydych yn gweithio. Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi amlinell sylfaenol i chi o beth ddylech ei ddisgwyl oddi wrth eich darparwr llafur. Dyma eich hawliau cyflogaeth.

Isafswm Cyflog Cenedlaethol

Dylech dderbyn o leiaf yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol (NMW) os ydych mewn swydd barhaol, ar gontract tymor byr neu'n gweithio ar gyfer asiantaeth. Mae gan y rhan fwyaf o weithwyr amaethyddol hawl i gyfradd tâl ychwanegol uwchben yr NMW. Os ydych yn derbyn tâl am waith ar dasg, dylech barhau i ennill y gyfradd isafswm cyflog. Mae ychydig o eithriadau i hyn, gan gynnwys gweithwyr hunangyflogedig a gweithwyr gwirfoddol. Galwch y Llinell Gymorth Hawliau Cyflog a Gwaith am ddim neu edrychwch ar y wefan (manyllion ar dudalen 12) am yr wybodaeth ddiweddaraf.

Oriau gwaith

Ni ddylai fod yn rhaid i chi weithio mwy nag 48 awr yr wythnos, gan gynnwys goramser, oni bai eich bod wedi dewis gwneud hynny. Rhaid i'ch darparwr llafur gadw cofnod ysgrifenedig er mwyn dangos eich bod wedi cytuno i weithio oriau ychwanegol.

Mae gennych yr hawl i gymryd isafswm o un diwrnod rhydd yr wythnos, ac os ydych yn gweithio am fwy na chwe awr y dydd, dylech gael seibiant gorffwys am o leiaf 20 munud.

Gwyliau blynyddol

O dan y gyfraith, mae gennych hawl i nifer lleiaf o wythnosau o wyliau taledig y flwyddyn, gan gychwyn o'ch diwrnod cyntaf yn y gwaith. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr rhan-amser a chontract cyfnod penodol. Cysylltwch â'r llinell gymorth hawliau cyflog a gwaith neu edrychwch ar direct.gov.uk am yr wybodaeth ddiweddaraf.

Dylai manylion am eich hawl i wyliau fod yn eich cytundeb cyflogaeth. Mae wedi'i seilio ar eich oriau gwaith arferol (pro rata ar gyfer gweithwyr rhan-amser), a gronnwyd yn ystod yr amser rydych yn gweithio i'ch cyflogwr a dylai gael ei dalu ar eich cyfradd weithio arferol.

Pan fyddwch chi'n gadael eich swydd, dylai unrhyw wyliau nad ydych wedi'i gymryd gael ei dalu i chi. Os nad yw eich cyflogwr yn fodlon i chi gymryd unrhyw wyliau neu mae arno dâl gwyliau i chi, gallwch gysylltu â'r Llinell Gymorth Hawliau Cyflog a Gwaith neu'r Canolfan Cynghori am gyfarwyddyd ynghylch adennill yr arian.

Slip tâl wedi'i eitemeiddio

Dylech dderbyn slip tâl ar y dydd cewch eich talu, sy'n dangos eich cyflog crynswth a'ch cyflog clir. Dylai hefyd restru swm a phwrpas unrhyw ddidyniadau a gânt eu didynnu o'ch cyflog.

Dylai didyniadau a allant newid yn wythnosol, fel treth ac yswiriant gwladol, gael eu rhestru ar bob slip tâl. Dylech dderbyn eich cyflog a gytunwyd yn brydlon, gan gynnwys tâl gwyliau neu salwch.

Didyniadau o gyflogau

Dim ond didyniadau penodol y gall eich darparwr llafur dynnu o'ch cyflog a rhaid iddynt gael eu rhestru ar eich slip tâl. Mae'r rhain yn cynnwys didyniadau statudol fel eich treth a chyfraniadau yswiriant gwladol, didyniadau rydych wedi cytuno iddynt yn eich contract cyflogaeth neu ddidyniadau rydych wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig ar eu cyfer, fel cludiant neu lety.

Hyd yn oed os ydych wedi cytuno i ddiwyniad, rhaid iddo beidio â gostwng eich tâl islaw'r isafswm cyflog, ar wahân i swm cyfyngedig ar gyfer llety. Cysylltwch â'r Llinell Gymorth Hawliau Cyflog a Gwaith am gyfarwyddyd.

Iechyd a diogelwch

Mae gan eich cyflogwr gyfrifoldeb cyfreithiol dros eich iechyd a'ch diogelwch yn y gwaith. Rhaid i'ch darparwr llafur a'ch defnyddiwr llafur gytuno pwy fydd yn gyfrifol am reoli eich iechyd a'ch diogelwch. Dylech dderbyn gwybodaeth am iechyd a diogelwch, hyfforddiant a dillad gwarchod am ddim.

Tâl salwch

Dylai eich contract cyflogaeth ddatgan y tâl byddwch yn ei dderbyn os ydych i ffwrdd o'r gwaith oherwydd eich bod yn sâl. Y swm lleiaf mae gennych hawl iddo yw tâl salwch statudol [SSP] os ydych i ffwrdd o'r gwaith am bedwar diwrnod neu fwy yn olynol, ond gall eich contract roi tâl neu fuddion ychwanegol i chi.

Eich amodau a thelerau

Cytundeb yw hwn rhyngoch chi a'r sawl rydych yn gweithio iddynt. Dan y gyfraith, os cawsoch eich cyflogi am dros fis, rhaid i chi dderbyn manylion ysgrifenedig o'ch amodau a thelerau.

Dylech dderbyn eich datganiad ysgrifenedig o fewn deufis o ddechrau gweithio, a rhaid iddo gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

- Eich enw
- Pwy fyddwch yn gweithio iddynt
- Pa fath o waith byddwch yn ei wneud
- Y dyddiad y bu ichi gychwyn gwaith
- Eich gweithle
- Swm eich cyflog a pha mor aml cewch eich talu (yn wythnosol neu fisol)
- Oriau gwaith
- Hawl i wyliau
- Hawl i dâl salwch
- Y gweithdrefnau disgyblaethol, diswyddo a chwynion
- Cyfnod rhybudd sy'n ofynnol i chi ei roi os ydych yn ymddiswyddo, neu sy'n rhaid i chi ei dderbyn yn dilyn eich diswyddo

Gall eich cyflogwr newid amodau a thelerau eich contract dim ond gyda'ch caniatâd chi.

Helpwch i atal gweithwyr rhag cael eu hecsbloetio

Mae angen eich help arnom er mwyn sicrhau fod eich hawliau wedi'u gwarchod a rhoir yr amodau gwaith i chi y mae gennych hawl iddynt. Os ydych yn teimlo na chawsoch eich trin yn deg ac yn gyfreithlon, cysylltwch â ni os gwelwch yn dda.

- Galwch 0845 602 5020 er mwyn siarad yn uniongyrchol â ni. Mae ein llinellau ffôn ar agor o Ddydd Llun i Ddydd Gwener, 9.00yb–5.00yp
- Anfonwch e-bost at ein tîm cudd-ymchwil yn intelligence@gla.gov.uk
- Defnyddiwch ein ffurflen adrodd anhysbys, sydd ar gael mewn nifer o ieithoedd ar-lein yn www.gla.defra.gov.uk
- Ysgrifennwch atom yn GLA, Blwch Swyddfa'r Post 10272, Swydd Nottingham, NG2 9PB.

Os hoffech chi drafod eich hawliau cyflogaeth gyda chynghorydd profiadol, gallwch gysylltu â'ch Canolfan Cynghori am gymorth a chyfarwyddyd, neu alw'r Llinell Gymorth Hawliau Cyflog a Gwaith.

Cyfrifoldebau eich darparwr llafur

Rhaid bod gan eich darparwr llafur drwydded gangfeistr er mwyn gweithio'n gyfreithlon yn y sectorau a reoleiddir.

Er mwyn gwneud cais llwyddiannus am drwydded, bydd angen i ddarparwyr llafur ddangos eu bod yn bodloni'r gofynion trwyddedu GLA [gweler tudalen 10]. Mae'r safonau i gyd yn ofynion cyfreithiol, er mwyn gwarchod gweithwyr rhag cael eu trin yn wael a'u hecsbloetio.

Rhaid i ddarparwyr llafur barhau i gydymffurfio â'r safonau trwyddedu er mwyn cadw eu trwydded. Os ydych yn pryderu bod darparwr llafur yn methu â chwrdd â'r safonau neu'n gweithredu heb drwydded dylech gysylltu â ni.

Nid dim ond amodau'r drwydded gangfeistri yw'r rhain, maent hefyd yn cynrychioli eich hawliau cyfreithiol – mae gan eich cyflogwr gyfrifoldeb i sicrhau eich bod yn cael eich trin yn deg.

Y safonau trwyddedu

Mae safonau trwyddedu GLA yn gosod allan yr amodau sy'n rhaid eu bodloni er mwyn cymhwyso ar gyfer trwydded.

Y meysydd a rychwantir yw'r rhain:

- Prawf Addas a Chywir
- Materion Tâl a Threth
- Atal Llafur Gorfodol a Cham-drin Gweithwyr
- Llety
- Amodau gweithio
- Iechyd a Diogelwch
- Recriwtio Gweithwyr a Threfniadau Cytundebol
- Is-gontractio a Defnyddio Darparwyr Llafur Eraill

Am wybodaeth bellach gallwch ofyn am gopi o'r llyfryn Safonau Trwyddedu GLA.

Cymorth a chyfarwyddyd pellach

Mae nifer o sefydliadau a allant roi cyngor manwl i chi ynghylch eich holl hawliau cyflogaeth.

Canolfan Cyngori

Cyngor am ddim, diduedd a chyfrinachol ynghylch pob pwnc gyda swyddfeydd lleol ledled y DU.

www.adviceguide.org.uk

Canolfan Cyngori – Cymru a Lloegr

www.citizensadvice.org.uk

Teleffon: +44 [0]20 7833 2181

er mwyn cael rhif eich swyddfa leol

Canolfan Cyngori – Gogledd Iwerddon

www.citizensadvice.org.uk

Teleffon: +44 [0] 289 023 1120

er mwyn cael rhif eich swyddfa leol

Canolfan Cyngori – Y r Alban

www.cas.org.uk

Teleffon: +44 [0] 131 550 1000

er mwyn cael rhif eich swyddfa leol

Directgov

Gwybodaeth o ystod eang o adrannau'r llywodraeth – gweler yr adran gyflogaeth am gyfarwyddyd ynghylch tâl, seibiannau gorffwys, hawl i wyliau, iechyd a diogelwch a cholli gwaith.

www.direct.gov.uk

Llinell Gymorth Cyflog a Gwaith

Advice on the National and Agricultural Minimum Wages, working hours and employment agencies. Free to call.

www.direct.gov.uk/paysandworkrights

Telephone: +44 (0) 800 917 2368

Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS)

Cyngor ynghylch yr Isafswm Cyflogau Cenedlaethol ac Amaethyddol, oriau gwaith ac asiantaethau cyflogaeth. Gallwch eu galw am ddim.

www.direct.gov.uk/paysandworkrights

Teleffon: +44 [0] 800 917 2368

Cyngres yr Undebau Llafur (TUC)

www.tuc.org.uk

Teleffon: +44 [0]20 7636 4030

Iechyd a Diogelwch yn y gwaith

Cliciwch ar y cyswllt hawliau gweithwyr am gyfarwyddyd manwl o'r Adran Weithredol Iechyd a Diogelwch.

www.hse.gov.uk

Teleffon: +44 [0] 845 345 0055

Rhif Yswiriant Gwladol

Cysylltwch â Chanolfan Byd Gwaith er mwyn gwneud cais am rif Yswiriant Gwladol.

www.jobcentreplus.gov.uk

Teleffon: +44 [0] 845 600 0643

Crimestoppers

Gallwch gysylltu â Crimestoppers am ddim, unrhyw bryd, gyda gwybodaeth ynghylch troseddau. Nid oes angen i chi adael ei enw ac ni ellir olrhain eich galwad.

www.crimestoppers-uk.org

Teleffon: +44 [0] 800 555 111

Cysylltwch â ni



Awdurdod Trwyddedu Gangfeistri

Blwch Swyddfa'r Post 10272 ■ Nottingham ■ NG2 9PB

www.gla.defra.gov.uk

e: enquiries@gla.gsi.gov.uk

ff: +44 [0] 845 602 5020

